# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI
# LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cygnor a gynhaliwyd
yng Nghanolfan Tregarth ar
**Nos Iau 17 Hydref 2024 am 18.30**

**PRESENNOL:**
Y Cynghorydd Gareth P Williams
Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Dafydd Roberts
Y Cynghorydd David Roberts
Y Cynghorydd Mair O Pierce
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd Sian Beidas

**Cynghorydd Sir**
Cyng. Beca Roberts

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cyng. Huw Jones.

   **Ymddiheuriadau** gan y Cyngr. Iwan Hywel, Mary Hayes, Anwen Jones a Lowri Jones.

2. **Mark Hughes, Cynlluniau Arfaethedig Cae Pel-droed Tregarth**
   Yn dilyn cyfarfod ar y safle gyda Mark Hughes, penderfynwyd gwahodd Mark i'r cyfarfod hwn i drafod y cynlluniau arfaethedig gyda gweddill y Cyngor. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd cefnogi'r cynllun mewn egwyddor, a chytunwyd y bydd Mark yn cadw mewn cyswllt agos gyda'r Cyngor, ac yn rhoid diweddariad ar y cynllun pan fu'r angen. Y Clerc a Mark i edrych ar rhoi pyst gol yn ôl ar y cae dros dro.

3. **Cofnodion**
   **Penderfynwyd:** Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Medi 2024.

4. **Materion yn codi o'r cofnodion**

4.1 **Llwybr Rhif 3** – Adroddwyd fod y gwelliannau wedi cael ei gwblhau.

4.2 **Seddi Gwag -** Y Clerc wedi hysbysebu'r sedd wag eto, dim ymateb hyd yn hyn. Y Clerc wedi cysylltu gyda Ysgol Llandygai ynglŷn â diffyg cynrychiolaeth ar Fwrdd Llywodraethol yr ysgol – ar y gweill. Y Clerc wedi hysbysu'r adran etholiadau yng Nghyngor Gwynedd ynglŷn ag ymddiswyddiad Carwyn Edwards, dim ymateb hyd yn hyn. Y Cyngor i ethol Is-gadeirydd newydd yn y cyfarfod nesaf, i Glerc i gynnwys ar yr agenda.

4.3 **Biniau Baw Ci** – Nodwyd fod y Cyng. Beca Roberts wedi gwneud cais am finiau newydd – un yn Sling ac un ar Lon y Grug. Cadarnhawyd fod y Cyng. Beca Roberts

hefyd wedi gwneud cais am fin ar bont Penrala yn Nhregarth – nid yw'r Cynghorydd yn derbyn unrhyw ymateb ar y mater hwn.

**4.4 Mynedfa Lon Las Ogwen ger Modurdy Pandy –** estynu'r linell wen a gosod 'road studs' coch (Ian Morgan). Adroddwyd y Clerc fod y llinellau melyn dwbl wedi cael ei osod, ond nid y 'road studs' coch. Y Clerc wedi cysylltu gyda Ian Morgan, dim ymateb hyd yn hyn.

**4.4 Pontydd Penrala a Coetmor -** Gordyfiant o iorwg ar y pontydd hyn – cadarnhawyd Cyngor Gwynedd ei fod ar y rhaglen waith.

**4.5 Llecyn Tir Bont Twr** - Adroddwyd fod y Clerc wedi cysylltu gyda'r adran Lleiniau Tir yng Nghyngor Gwynedd, a'u bod wedi trosglwyddo'r mater i'r adran gyfreithiol - ar y gweill.

**4.6 Trelar ger Bro Syr Ifor –** Adroddwyd fod y trelar wedi mynd oddi ar y safle.

**4.7 Pont y Pandy -** Nodwyd y Cyng. Dafydd Owen ei fod yn anfodlon gydag ymateb NMWTRA, a bod angen archwiliad diogelwch ar y safle. Y Clerc i gysylltu gyda NMWTRA i amlygu'r pryderon ac i ofyn am archwiliad diogelwch manwl ar y safle. Dim ymateb hyd yn hyn.

**4.8 Polisi Iaith y Cyngor –** Cadarnhawyd bydd y Cyng. Iwan Hywel wedi danfon templed ddrafft o bolisi iaith erbyn y cyfarfod nesaf.

**4.9 Murlun Canolfan Tregarth** - Adroddwyd fod y Clerc wedi ymweld â disgyblion Ysgol Tregarth ar y 1af o Hydref i gael syniadau, ac wedi cynnal noson ymgynghori yn y Ganolfan ar y 3ydd o Hydref. Y Clerc wedi danfon yr holl syniadau at yr artist – ar y gweill.

**5. Gohebiaeth**

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Hydref 2024'

**5.1 Carnifal Bethesda - Rhodd flynyddol i'r Carnifal -** penderfynwyd ail gyflwyno'r ohebiaeth hwn yn y cyfarfod nesaf.

**5.2 Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2025-26 –** Danfon unrhyw sylwadau erbyn 29 Tachwedd 2024.

**5.3 Cyngor Cymuned Llanllechid – Tai Fforddiadwy –** Penderfynwyd fod y Cyngor yn cefnogi mewn egwyddor, a bod angen tai fforddiadwy cytbwys, fodd bynnag bydd y Cyngor yn canolbwyntio ein hymdrechion ar y Cynllun Datblygu Lleol o fewn ein plwyf ni.

**5.4 Cyngor Gwynedd – Y Galw am Safleoedd – Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd (2024-2039) –** Nodwyd fod y dyddiad cau wedi ymestyn i 15 Ionawr 2025.

**6. Gwaith y mis**

**6.1 Parc y Bwlch -** Nodwyd fod y gwaith yn cychwyn diwedd y mis, ond nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi rhybudd i'r pentref. Nodwyd y Cyng. Beca Roberts ei fod wedi bod mewn cyswllt a Kath McNulty, a'i fod ar fin rhoi datganiad allan i'r cyhoedd.

**6.2 Lon Las Ogwen -** Adroddwyd fod y rhan o'r Lon Las rhwng Twnnel Tywyll a phont rheilffordd y chwarel angen ei lanhau - y Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd.

**7. Adroddiad Cynrychiolwyr**

**7.1 Canolfan Tregarth –** Adroddwyd fod y Pwyllgor ddim yn cyfarfod tan wythnos nesaf.

**7.2 Torri llwybrau -** Nodwyd y Clerc fydd y contractwr yn cwblhau'r ail doriad o'r llwybrau yn ystod yr wythnosau nesaf.

**8. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**

**8.1** Pawb wedi derbyn Adroddiad Ariannol gyda rhestr taliadau, derbyniadau a mantolen am flwyddyn gyfredol. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad. Adolygu'r gofrestr risg yn y cyfarfod nesaf.

**9. Taliadau**

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Partneriaeth Ogwen | Gwasanaeth Clercio | £10,650.79 |
| Geiriau Gwyn | Cyfieithu cyfarfod mis Ebrill 2024 | £108.00 |
| Partneriaeth Ogwen | Cyfraniad at gostau rhedeg Llyfrgell | £1,153.50 |

**10. Penderfyniadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C18/0767/16/LL** | Coed Wern, Glasinfryn<br>Datblygiad llety gwyliau (cynllun diwygiedig) sy'n golygu:- Gosod sylfeini ar gyfer cabannau gyda decio cysylltiedig. Gosod sylfeini ar gyfer podiau glampio. Seilwaith cysylltiedig i gynnwys ffyrdd mewnol, mannau parcio, systemau draenio cynaliadwy ynghyd a draenio dŵr aflan. Tirlunio meddal a chaled gan gynnwys torri rhai coed, cadw coed ac ymgymryd â gwelliannau i'r goedlan bresennol. Codi derbynfa/adeilad gwerthiant ynghyd ac ail-orchuddio'r adeilad presennol a'i ddefnyddio fel hwb e-beicio gyda phwyntiau gwefru trydan.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0004/16/LL** | Land at Maes Talog, Tregarth<br>Codi annedd marchnad agored sengl deulawr a garej ddwbl ar wahân.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0048/16/LL** | Ynys Ganol, Mynydd Llandygai<br>Adeiladu Menage gydag arwyneb tywod a ffibr gyda ffensys Post a Rheilen o'i amgylch ar gyfer defnydd preifat yn unig.<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gyda amodau |
| **C24/0219/16/LL** | Clwb Criced Bangor, Ffordd Llandygai<br>Cael gwared ar ardal ymarfer bresennol [0.02 ha] ac adeiladu ardal ymarfer newydd wedi'i gwella a'i chynyddu [0.03 Ha]<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0258/16/DT** | 19 Llwybr Main, Mynydd Llandygai<br>Gosod Pwmp gwres ffynhonnell aer ar flaen yr annedd<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |

| | |
|---|---|
| **NP3/16/28C** | Tir ger Maes Parcio Ogwen, Nant Ffrancon, Bethesda.<br>Cynyddu uchder y tŵr telathrebu 15.5m presennol i 17.9m ar gyfer antenau ychwanegol a gosod offer ychwanegol ar y ddaear mewn compownd estynedig<br>**Penderfyniad:** Caniatwyd gyda amodau |
| **C24/0711/16/LL** | Tanysgafell Isaf, Coed y Parc<br>Adeiladu trac mynediad graean 3m o led newydd i'r safle er mwyn caniatáu mynediad i'r adeiladau a'r safle<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |

**11. Ceisiadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C24/0787/16/DT** | 1 Llwybr Main, Mynydd Llandygai,<br>Estyniad unllawr ochr a newidiadau mewnol i annedd presennol<br>**Penderfyniad:** |

**12. Unrhyw fater brys arall**

**Estyniad Chwarel Penrhyn -** Nodwyd fod pryderon ynglŷn â'r estyniad ar gyfryngau cymdeithasol, ond does neb wedi cysylltu yn uniongyrchol gyda'r Cyngor.

**Pont Sarnau -** Nodwyd hefyd fod pryderon ynglŷn â'r cais a gymeradwywyd i gael gwared a'r coed er mwyn adeiladu pont newydd wedi codi ar y cyfryngau cymdeithasol, ond nid oes neb wedi codi'r mater gyda'r Cyngor Cymuned.

**13. Crynodeb Llais Ogwan**

Penderfynwyd cynnwys yr isod:

- Pont Twr - pryderon ynglŷn â chyflwr y bont;
- Cynlluniau arfaethedig Cae Pêl-droed Tregarth
- Gwelliannau Llwybr rhif 3.